**SEFYDLIAD BEVAN**
**MEWN PARTNERIAETH Â POSITIF POLITICS**

**CYMRU'N UN, DDWY FLYNEDD YMLAEN**

**Dydd Llun 6ed Gorffennaf 2009**
**Canolfan yr Holl Genhedloedd, Y Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 3NY**

Dymunaf archebu ..…….lle. Derbyniaf y telerau ac amodau drosodd.

Amgaeaf daliad …………….. / Dylech anfonebu ……….. (ticiwch un)

Enw'r cynrychiolydd(wyr) …………………………………………………

Sefydliad …………………………………………………………………..

Cyfeiriad ……………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………

Cod post ……………………Ffôn ……………………………………………..

Ebost ……………………………………………………………………………..

**Mae'n hanfodol darparu'r cyfeiriad ebost cywir am y caiff ei ddefnyddio i gadarnhau'ch lle ac i'ch hysbysu os bydd amgylchiadau annisgwyl.**

*Diogelu data: caiff eich manylion eu storio'n electronig at ddibenion gweinyddiaeth y gynhadledd ac i'ch hysbysu am ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Ni chânt eu rhannu gydag unrhyw drydydd partïon na'u defnyddio at unrhyw ddiben arall.*


***Dychweler i***
June Evans
Sefydliad Bevan
Tŷ Aneurin Bevan
40 Stryd y Castell
Tredegar
Blaenau Gwent NP22 3DQ

Ffôn. 01495 725214
Ffacs 01495 725214

Ebost
events@bevanfoundation.org


SEFYDLIAD BEVAN FOUNDATION

positif politics

**SEFYDLIAD BEVAN**
**MEWN PARTNERIAETH Â POSITIF POLITICS**

**Dydd Llun 6ed Gorffennaf 2009**
**Canolfan yr Holl Genhedloedd, Y Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 3NY**

# CYMRU'N UN, DDWY FLYNEDD YMLAEN: Astudiaeth o Lywodraeth Cymru'n Un o'r canol

**Gwelwyd hanes gwleidyddol yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2007. Mae Cytundeb Cymru'n Un rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn un o'r mentrau gwleidyddol mwyaf beiddgar a welwyd erioed yng Nghymru. Bu'n gytundeb diddorol rhwng y ddwy blaid fwyaf yn y Cynulliad a daeth ar adeg o newid economaidd, ariannol, cyfansoddiadol a deddfwriaethol. Ddwy flynedd ers sefydlu'r llywodraeth hon, a dwy flynedd cyn Etholiad nesaf y Cynulliad, mae'n amserol inni astudio dull gweithredu Cymru'n Un a'r hyn mae'n ei gyflawni. A yw wedi llwyddo i gyflawni, i ble yr aiff nesaf, a beth fydd wedi newid?**

## RHAGLEN DDRAFFT

| | |
|---|---|
| **9.45** | **Cofrestru a choffi** |
| | **SESIWN Y BORE: Y DDWY FLYNEDD DDIWETHAF**<br>**Dan gadeiryddiaeth Huw Edwards** |
| **10.00** | **Cyflwyniad: Sut caiff clymbleidiau eu Sefydlu**<br>*Yr Athro Laura McAllister, Ysgol Lywodraethu Caerdydd* |
| **10.45** | **Prif Araith: Y Cyd-destun Polisi**<br>*Mark Drakeford, Uwch Ymgynghorydd Arbennig, Llywodraeth Cynulliad Cymru* |
| **11.30** | **Coffi** |
| **11.45** | **Prif Araith: Cyflawni ein Rhaglen**<br>*Carwyn Jones AC* |
| **12.15** | **Trafodaeth Banel: Ymgysylltu â Pholisi o fewn Cymru'n Un**<br>*Cyfraniadau gan arbenigwyr polisi a rhanddeiliaid* |
| **13.00** | **CINIO** |
| | **SESIWN Y PRYNHAWN: Y DDWY FLYNEDD NESAF**<br>**Dan gadeiryddiaeth Daran Hill, Positif Politics** |
| **13.45** | **Prif Areithiau: Yn Gweithredu fel Gwrthblaid neu'n Paratoi i Lywodraethu?**<br>*Nick Bourne AC*<br>*Kirsty Williams AC* |
| **14.45** | **Cyflwyniad: Confensiwn Cymru Gyfan: Hanes y Ddwy Flynedd Nesaf?**<br>*Nick Bennett* |
| **15.15** | **Te** |
| **15.30** | **Trafodaeth Banel: Safbwyntiau aelodau newydd i'r Cynulliad**<br>*Lesley Griffiths AC*<br>*Bethan Jenkins AC*<br>*Darren Millar AC* |
| **16.15** | **Cyflwyniad: Bosib, Bendant, Byth - Wnaiff Llafur a Phlaid yr un peth eto?**<br>*Vaughan Roderick, BBC Cymru* |
| **16.45** | **Sylwadau i gloi** |

## Pam y dylech fynychu

Cymru'n Un yw'r glasbrint ar gyfer yr hyn y mae'r glymblaid rhwng Llafur a Phlaid Cymru'n dymuno'i gyflawni yn ystod rhaglen bedair blynedd. Mae'n cynnwys addysg, iechyd, yr economi, tai, yr amgylchedd, diwylliant a llawer mwy. Byddai o ddiddordeb i unrhyw un sy'n ymwneud â chreu, dylanwadu neu drin a thrafod polisi a gwleidyddiaeth yng Nghymru.

Y Gynhadledd hon yw'r tro cyntaf i unrhyw sefydliadau annibynnol roi cynnig ar werthuso cynnydd a dyfodol Cymru'n Un. Wrth i ni gyrraedd carreg filltir dwy flynedd ers cytundebau hanesyddol Gorffennaf 2007, mae'r digwyddiad hwn yn tynnu gwleidyddion amlwg, llunwyr polisi allweddol a sylwebyddion gwybodus at ei gilydd i drafod cyflwr presennol Cymru'n Un a'i ddyfodol. Mae'n ddiwrnod na allwch fforddio'i golli.

**FFÏOEDD Y GYNHADLEDD (FESUL CYNRYCHIOLYDD)**

| | |
|---|---|
| Cyrff Statudol a'r Sector Preifat | £149 |
| Aelodau Sefydliad Bevan<br>Grwpiau gwirfoddol / cymunedol | £99 |

## Nodiadau

- **Rydym yn rhagweld galw mawr am lefydd felly mae hi'n hanfodol archebu ymlaen llaw. DYDDIAD CAU: 30AIN MEHEFIN.**
- Rhaid i ni dderbyn taliad llawn cyn neu ar y dydd. Cewch gadarnhad o'ch lle unwaith y derbynnir eich taliad.
- Bydd y cinio'n cynnwys opsiynau llysieuol. Cysylltwch gyda ni os oes gennych anghenion diet arbennig eraill.
- Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymru / Saesneg yn cael ei ddarparu.
- Mae mynediad i bobl anabl a llefydd parcio ar gael yn y lleoliad. Cysylltwch gyda ni os oes gennych anghenion eraill.
- Rhaid talu'r ffi yn llawn os ydych yn canslo lai na 7 diwrnod cyn y digwyddiad. Gellir anfon dirprwyon unrhyw bryd.
- Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i newid y rhaglen oherwydd newidiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.